



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Chi a'ch
gweithiwr gofal
cymdeithasol –
beth i'w ddisgwyl



Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn eich helpu i fyw eich bywyd yn y ffordd yr ydych eisiau.

I wneud yn siwr fod gweithwyr yng Nghymru yn rhoi gofal a chymorth da i chi, mae Gofal Cymdeithasol Cymru gyda Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol (y Côt) a chofrestr o grwpiau o weithwyr i wneud yn siwr eu bod yn addas i weithio.

Set o reolau, neu safonau, y mae'n rhaid i weithwyr gofal proffesiynol weithio yn unol â nhw yw'r Côt, i helpu eich cadw'n ddiogel ac iach. Bydd y daflen hon yn helpu i chi wybod beth yw'r safonau.

Beth mae'r Côt yn ei ddweud

I roi'r gofal a'r cymorth gorau i chi, rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol:

- Eich helpu i ddweud a chyflawni'r hyn sy'n bwysig i chi
- Parchu eich urddas, preifatrwydd, dewisiadau, diwylliant, iaith, hawliau, credoau, safbwyntiau a dymuniadau
- Eich cynorthwyo i aros yn ddiogel
- Bod yn onest, sicr a dibynadwy
- Bod yn gymwys i wneud eu swydd yn gywir

Ble gallaf i ddod o hyd i'r Côt?

Mae'r Côt ar-lein yn: gofalcymdeithasol.cymru/cod

Neu cysylltwch â ni ar 0300 30 33 444 neu
Codau@GofalCymdeithasol.Cymru

Pwy sy'n gorfod cadw at y Côt?

Dylai pob gweithiwr gofal cymdeithasol ddilyn y Côt. Rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru gyda ni ddilyn y Côt i barhau i weithio ym maes gofal cymdeithasol. Dyma nhw:

- Gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gwaith cymdeithasol
- Rheolwyr a gweithwyr gofal preswyl i blant
- Rheolwyr cartrefi gofal oedolion
- Rheolwyr gofal cartref
- Bydd pob gweithiwr gofal cartref angen cofrestru gyda ni erbyn 2020.

Mae ein Cofrestr yn gwneud yn siwr bod gweithwyr:

- yn addas i weithio
- o gymeriad da
- yn meddu ar y cymwysterau sydd eu hangen arnynt, ac
- yn cytuno i gadw at y Côt.

Gallwch wirio i weld a yw gweithiwr wedi'i gofrestru yn gofalcymdeithasol.cymru



Beth allwch chi ei wneud os nad yw eich gweithiwr gofal cymdeithasol yn gweithio yn unol â'r Côt?

1. Darllenwch y Côt i gyfarwyddo a'r safonau yn gofalcymdeithasol. [cymru/cod](#)
2. Rhannwch eich pryderon â chyflogwr eich gweithiwr gofal a gofyn beth fydd yn ei wneud
3. Os nad yw'r cyflogwr yn mynd i'r afael â'ch pryderon, gofynwch am gopi o'u gweithdrefn gwyno i helpu i chi wybod beth i'w wneud nesaf
4. Os yw'r gweithiwr wedi'i gofrestru gyda ni ac nid yw siarad â'r cyflogwr wedi helpu, siaradwch â rhywun yn ein tîm Addasrwydd i Ymarfer ar [02920 780545](tel:02920780545) neu aiy@gofalcymdeithasol.cymru

Os ydych chi'n pryderu am safon y gofal a ddarperir gan gwmni neu sefydliad, gallwch gysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar [0300 7900 126](tel:03007900126) neu agc@llyw.cymru neu ewch i'w gwefan: arolygaethgofal.cymru

